



Ein cyf/Our ref:

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Mawrth 2021

Annwyl Russell,

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 10/03/2021

Ysgrifennaf atoch yn dilyn Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2021 pan gytunais i anfon nodyn at y pwyllgor sy'n nodi manylion llawn y math o gymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnig i Faes Awyr Caerdydd a'r broses yr ydym wedi mynd drwyddi i ddod i'r penderfyniad hwnnw.

Byddai gwneud dim yn gweld y maes awyr yn rhoi'r gorau i fasnachu, colli swyddi a byddem yn colli'r rhan tyngedfennol hwn o seilwaith am genedlaethau i ddod.

Mae'r penderfyniad buddsoddi diweddar yn cynyddu'r tebygolrwydd o adennill buddsoddiad benthyciadau Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r opsiwn cost oes isaf. Mae'n darparu'r ffordd orau ymlaen i Weinidogion Cymru fel unig gyfranddalwyr y maes awyr o safbwynt masnachol.

Drwy gymryd y camau hyn rydym yn hyderus y bydd hyn yn diogelu gwerth y buddsoddiad cyhoeddus yn y maes awyr orau ac yn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Bydd yr arian hwn yn helpu i gynnal hyd at 5,200 o swyddi anuniongyrchol a gedwir o weithgarwch economaidd y cwmnïau sydd ar y safle yn y maes awyr a'r cwmnïau yn y gadwyn gyflenwi ehangach, ar adeg pan wyddom fod angen cymorth ar y sector Hedfan.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Isod ceir tabl o'r cymorth a ddarperir i'r maes awyr;

Benthyciad a roddwyd hyd yma:	£54.6m
Llog yn ddyledus:	£9.5m
Benthyciad argyfwng COVID-19:	£4.8m
Buddsoddiad Ecwiti:	£61.3m
CYFANSWM y buddsoddiad hyd yma:	£130.2m

Mae ein mantolen yn adlewyrchu'r gwerth hwn.

Yn 2016, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid grant o £169,000 i gynorthwyo gyda diogelwch y maes awyr, ac yn 2019, cafwyd grant ar gyfer Gatiau e-Basbort ar gost o £610,000.

Cymorth achub ac ailstrwythuro.

Yn ddiweddar, rydym wedi cytuno ar fuddsoddiad drwy grant o hyd at £42.6m o dan gymorth achub ac ailstrwythuro o dan delerau Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE, a roddir i alluogi Maes Awyr Caerdydd i ailstrwythuro ei weithrediadau, a sicrhau ei hyfywedd hirdymor.

Rydym wedi buddsoddi £130.9m mewn arian parod hyd yma, ac rydym wedi ymrwmo i roi £42.6m arall dros 5 mlynedd.

Dileu dyled ag amhariad ecwiti

Ar wahân, yn rhinwedd ei swydd fel yr unig fenthyciwr i faes awyr Llywodraeth Cymru, rydym wedi gwneud y penderfyniad ar sail fasnachol yn unig i ddileu £42.6 miliwn o ddyled y meysydd awyr. Mae'r penderfyniad hwn yn cynyddu'r tebygolrwydd o adennill buddsoddiad benthyciadau Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r opsiwn cost oes isaf. Mae'n darparu'r ffordd orau ymlaen i Weinidogion Cymru fel unig gyfranddalwyr y maes awyr o safbwynt masnachol,

Rydym hefyd yn amharu ar yr ecwiti ar hyn o bryd fel cam doeth i adlewyrchu colli gwerth o ganlyniad i Covid sy'n dod i £46.3m. Drwy gymryd y camau hyn rydym yn hyderus y bydd hyn yn diogelu gwerth y buddsoddiad cyhoeddus yn y maes awyr orau ac yn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Erbyn hyn, mae gan y cyfranddaliadau gwerth £ £61.3m yn CIAL werth marchnad wedi'i ddiddymu o £15m ar gyfer holl asedau'r busnes ar sail y rhannau, sy'n arwain at golled o £46.3m mewn gwerth.

Nid oes cyfleuster benthycia pellach ar gael i Faes Awyr Caerdydd gan Lywodraeth Cymru.

Y ddyled sy'n weddill o £68.9m yn dilyn y gostyngiad o £42.6m fydd £26.3m ar 31 Mawrth 2021 y gellir ei adennill yn llawn. Bydd yr ad-daliadau o'r benthyciad yn dechrau ym mlwyddyn ariannol 2031/32 a bydd y maes awyr mewn sefyllfa i ad-dalu gweddill gwerth y ddyled i Lywodraeth Cymru erbyn 2045.

I grynhoi; i adlewyrchu'r dirywiad byd-eang yn y farchnad hedfan rydym wedi addasu'r ffordd rydym yn cydnabod gwerth ecwiti (£15m) a benthyciadau (£26.3m) y maes awyr. Felly rydym bellach yn cydnabod gwerth ein buddsoddiad yn y Maes Awyr fel £41.3m.

Bydd y buddsoddiad grant o £42.6m yn cael ei strwythuro dros 4 blynedd fel a ganlyn;

Blwyddyn	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Gwerth grant	£16m	£10.2m	£15m	£1.4m

Bydd y cyllid grant achub ac adfer yn cael ei dynnu i lawr gyda'r blaendaliad cyntaf yn cael ei wneud bob 6 mis, ac yna'n symud i bob chwarter. Bydd cynnydd CIAL yn erbyn ei gynllun ailstrwythuro yn cael ei fonitro'n agos gan WGC Holdco. Bydd Banc Datblygu Cymru yn parhau i fonitro'r busnes yn erbyn y benthyciad sy'n weddill i'w ad-dalu.

Nod y pecyn cymorth grant achub ac adfer yw dod â'r maes awyr yn ôl i hyfywedd ariannol mewn oddeutu 6 mlynedd (erbyn 2025/26).

Disgwylir i'r Maes Awyr gyrraedd nod cynaliadwy o 1.3m o deithwyr y flwyddyn erbyn mis Mawrth 2026, dyma'r flwyddyn gyntaf fydd disgwyl i'r maes awyr fodloni ei ofynion ariannol ei hun. Mae gennym gynllun adfer dichonadwy ar waith wedi'i feincnodi yn erbyn rhagfynegiadau teithwyr byd-eang, yr UE a'r DU ynghyd â chyngor trydydd parti gan ddau gwmni ymgynghori. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Fel yr unig gyfranddaliwr, byddwn yn parhau i weithredu ar delerau masnachol wrth inni adolygu cynnydd.

Mae'r broses yr ydym wedi mynd drwyddi i ddod i'r penderfyniad hwn mewn adroddiad ailstrwythuro manwl wedi'i baratoi gan yr ymgynghorydd annibynnol Oxera a'i gwblhau ar 21 Chwefror 2021. Cadarnhawyd hyn gan barti allanol arall, Duff & Phelps, a roddodd ail farn, a gafodd ei archwilio gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru a chafodd y cyngor ei ategu gan Gwnsler y Frenhines, sy'n arbenigwr mewn cyfraith cystadleuaeth a rheoli cymhorthdal.

Mae gennym gynllun achub ac adfer y cytunwyd arno y mae swyddogion Llywodraeth Cymru, Holdco a dau gwmni ymgynghorol annibynnol wedi craffu arno. Mae cynnwys y cynllun hwnnw'n parhau i fod yn fasnachol sensitif.

Bydd y cynllun achub ac adfer yn cael ei reoli'n rheolaidd er mwyn gwerthuso a diogelu ein buddsoddiad parhaus. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wrthi'n adolygu y dull o lywodraethu Maes Awyr Caerdydd ac yn cryfhau'r rôl y bydd Holdco yn ei chwarae wrth symud ymlaen. Rhoddaf wybod ichi beth yw canlyniad y trafodaethau hynny maes o law.

Mae'r penderfyniad hwn yn cynyddu'r tebygolrwydd o adennill buddsoddiad Llywodraeth Cymru i'r eithaf ac yn darparu'r opsiwn cost oes isaf. Mae'n darparu'r ffordd orau ymlaen i Weinidogion Cymru fel unig gyfranddaliwyr y maes awyr o safbwynt masnachol. Dyma'r unig gam gweithredu cyfrifol yn ariannol sy'n sicrhau bod ein buddsoddiad yn cael ei ddiogelu i'r eithaf, ac mae'r penderfyniad wedi'i wneud ar delerau masnachol. Y dewis arall yw gwneud dim, pan fyddai'r maes awyr yn rhoi'r gorau i fasnachu gan arwain at gollu swyddi a chau'r maes awyr. Yn y sefyllfa honno, byddem yn colli llawer mwy o'n buddsoddiad.

Yn gywir



Lee Waters AS

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth